

Yr Holocost a Chymru: General Paper and Box Manufacturing Company yn Ystad Fasnachu Trefforest

Nodiadau Athrawon

Sefydlwyd Ystad Fasnachu Trefforest, ger Pontypridd, fel rhan o Ddeddf Ardaloedd Arbennig 1934. Crëwyd y ddeddf i helpu rhannau o Brydain gyda diweithdra uchel, a chynigiodd gefnogaeth i fusnesau sefydlu yn yr ardaloedd hyn. Pan ddechreuodd y Natsïaid gipio busnesau Iddewig yn yr Almaen yn y blynyddoedd ar ôl 1933, ffodd llawer o ffoaduriaid Iddewig yma i sefydlu eu busnesau gyda chymorth y cynllun hwn.

Erbyn Mai 1940, roedd 55 o fusnesau a ddechreuwyd gan ffoaduriaid Iddewig yn gweithredu o Drefforest. Fe wnaethon nhw ddarparu swyddi i tua 1,800 o bobl leol.

Yn y wers hon, bydd myfyrwyr yn dysgu am brofiadau'r teulu Schoenmann, a oedd yn rhedeg ffatri papur sigaréts a bocsys yn Nhrefforest. Ystyriwyd bod eu busnes yn "hanfodol i ymdrech y rhyfel" gan fod sigaréts yn cael eu hystyried yn "hanfodol i gynnal morâl yn y lluoedd arfog, a gartref".¹

Cysylltiadau cwricwlwm

Cyfnod Allweddol 3

Celf a dylunio, Hanes, Sgiliau Llythrennedd

¹ George Schoenmann, *Memoirs... The Long Road to Retirement* (Hunan-gyhoeddedig, Mawrth 2011), t. 18.

Cynllun Gwers

AMCANION DYSGU

- Deall bywydau ffoaduriaid a oedd yn byw ac yn gweithio yn Ystad Fasnachu Trefforest.
- Annog empathi gyda ffoaduriaid ifanc oedd wedi cael eu gorfodi i ffoi o'u cartrefi.
- Gallu ymateb yn greadigol i ddirywiadau a themâu hanesyddol.

OFFER SYDD EU HANGEN

- Copïau o daflen waith y myfyrwyr.
- Trawsgrifiadau o'r darnau sain.²
- Deunyddiau: templed cês, siswrn, glud/tâp gludiog, deunyddiau dylunio/paentio.

DECHRAU ARNI

Trefnwch i'r [ddelwedd o Ystad Fasnachu Trefforest](#) gael ei thafunio wrth i'r dosbarth ddod i mewn i'r ystafell.

Ailadroddwch yr hyn a ddysgwyd gan [Aero Zipp Fasteners yn Ystad Fasnachu Trefforest](#):

- **Pam** sefydlodd y ffoaduriaid Iddewig eu busnesau yn Nhrefforest?
- **Pa** gyfraniad a wnaethant i fywyd yng Nghymru a Phrydain?

DATBLYGU

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen y wybodaeth am General Paper and Box Manufacturing Company a'r teulu Schoenmann (taflen waith y myfyrwyr) ac yna gwrandewch ar ddau glip hanes llafar o [George Schoenmann yn disgrifio ei amser yn yr ysgol](#) a [ffatri ei dad yn Nhrefforest](#). **[TASG 1]**.

Gan weithio mewn paru, dylai myfyrwyr ateb y cwestiynau ar y daflen waith:

- Pam roedd y plant eraill yn ysgol George yn ei fwlio?
- Sut fydddech chi'n teimlo pe bai rhywun yn eich bwlio oherwydd eich cenedligrwydd/crefydd?
- Sut gallai'r ysgol fod wedi gwneud i George deimlo'n fwy cynwysedig?
- Yn gyffredinol, dim ond un cês oedd yn cael ei ganiatáu i blant a ddaeth i'r DU fynd â nhw. Roedd eitemau arbennig o werthfawr yn aml yn cael eu cadw mewn blwch bach y tu mewn i'r cês. Pe baech chi'n cael eich gorfodi i ffoi o'ch cartref, pa eiddo fydddech chi am fynd gyda chi? A allent ffitio y tu mewn i gês? Pa eitemau fydddech chi'n eu rhoi yn eich blwch bach?

PRIF RAN Y WERS (Tasg ymarferol)

Mae myfyrwyr yn creu eu blwch eu hunain gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y daflen waith **[TASG 2]**.

² Fe wnaethom ychwanegu trawsgrifiadau'r clipiau sain, y gallwch ddewis eu rhannu gyda'ch myfyrwyr os ydych yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol. Mae'r trawsgrifiad yn Gymraeg a Saesneg tra bod y clip yn Saesneg yn unig.

Y DOSBARTH CYFAN

Gofynnwch i'r myfyrwyr fyfyrion ar yr ymarferion maen nhw wedi'u cwblhau a thrafod beth maen nhw wedi'i roi yn eu cês/bocs a pham.

Trawsgrifiadau

[Mae George Schoenmann yn sôn am gael ei fwlio yn yr ysgol](#)

Es i i'r ysgol wladol a gwnaeth hynny ddim gweithio allan yn dda iawn achos roeddwn i—doeddwn i ddim yn gallu siarad Saesneg. A chefais fy mhryfocio'n ddirugaredd. Wyddoch chi, bydden nhw'n fy ngalw'n enwau: 'Jerry' oedd y ffefryn, achos wrth gwrs, roedd y rhyfel newydd ddechrau. A byddent yn rhedeg o gwmpas yn smalio eu bod yn awyrennau, fel y gwnaethai plant bach yn y dyddiau hynny, gyda breichiau wedi'u hymestyn [chwerthin], yn gwneud synau a minnau bob amser oedd y Messerschmitt y saethwyd tuag ato. Beth bynnag, doedd o, doedd o ddim yn ddymunol iawn a'r ffaith nad oeddwn yn gallu siarad gair o Saesneg wrth gwrs a dim ymdrech wir yn cael ei wneud i'm cynnwys yn y gwersi. Felly, bob dydd amser egwyl, am ddeg o'r gloch, byddwn i'n sleifio allan drwy'r giât a rhedeg adref [chwerthin]. A hyn, fe aeth hyn ymlaen am dri neu bedwar mis mae'n debyg nes—wel, doedd neb yn fy ngholli i ddechrau, ond cefais fy nal gan chwaer fy nhad, fy modryb, a ddaeth i ymweled â'm mam yn annisgwyl a dod o hyd i mi yn eistedd ar y banc rheilffordd ac yn gwyllo'r trenau! Ac wrth gwrs, fe ddywedodd hi wrth fy mam a dyna'r awgrym cyntaf a gafodd fy mam fod rhywbeth wedi mynd o'i le yn yr ysgol.

[George Schoenmann yn siarad am y Cwmni General Paper and Box Manufacturing](#)

Roedd yr unedau yna adeiladwyd gan y llywodraeth ar Ystad Trefforest, i bob golwg yn un cynllun. Roedden nhw'n blaen iawn, dim byd ffansi o gwbl. Dim ond adeilad iwtilitaraidd. Rwy'n meddwl ei fod tua saith neu 8,000 troedfedd sgwâr ac roedd yr adeilad-roedd ganddo swyddfeydd yn y blaen ac fe'i rhannwyd yn fras yn hanner ac roedd yr hanner ychydig yn fwy, mae'n debyg 55 y cant wedi'i neilltuo ar gyfer papur sigarêts a'r 45 y cant arall oedd yr adran gwneud bocsys. Roedden nhw'n gwneud bocsys-wel, wn i ddim, fe allech chi roi esgidiau ynddynt-y math yna o beth. Er, wrth gwrs, doedden nhw ddim yn gwneud cystal yn ystod y rhyfel oherwydd ar y naill law ychydig iawn o stwff newydd oedd yn cael ei gynhyrchu, a'r un peth nad oedd ei angen arnoch chi oedd bocsys moethus [chwerthin]. Felly, cawsant dipyn o drafferth ac roedd y brif ffrwd refeniw o'r papur sigarêts.